# CAU'R FFORDD AR GYFER Y CORONI DYDD SADWRN 6 MAI 2023

Cyngor Bwrdeistref Sirol MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL County Borough Council

## Cynnwys:

- Nodiadau i'ch cynorthwyo i wneud cais
- Ffurflen Gais
- Ffurflen Indemniad

## Nodiadau cynorthwyol:

Mae'r Cyngor am ei gwneud yn haws i bobl gynnal partion stryd i ddathlu'r Coroni. Mae'r canllaw hwn yn darparu cyngor ynghylch sut i gynnal parti stryd bychan yn eich cymuned/stryd leol.

Mae'n cynnwys ffurflen gais i chi ei chwblhau a'i dychwelyd i Coronation@merthyr.gov.uk, fel y gallwch ddechrau trefnu'ch parti stryd.

Mae'r Cyngor am gefnogi partion stryd ond mae'n rhaid i chi sicrhau fod ceisiadau'n cael eu cyflwyno ar fyrder.

Os hoffech gynnal parti stryd, bychan i ddathlu'r Coroni, defnyddiwch y ffurflen gais er mwyn hysbysu'r Cyngor o'r digwyddiad arfaethedig (parti stryd) a gwnewch gais ar gyfer cau ffordd/ffyrdd. Er mwyn cynnal parti stryd ar eich priffordd, mae'n rhaid i chi ofyn am ganiatâd y Cyngor er mwyn sicrhau y gallwch gau'r stryd yn gyfreithiol ac yn ddiogel i draffig.

**Mae'n rhaid i geisiadau gael eu derbyn gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful erbyn: Dydd Gwener 28 Ebrill 2023 i Coronation@merthyr.gov.uk**

Bydd y Cyngor yn pennu os yw'r ffordd yn addas i gael ei chau.

*Dylid cynnal mynediad ar gyfer cerbydau'r Gwasanaethau Brys, ar gyfer preswylwyr/busnesau ar bob adeg, cyn belled ag y bo'n ymarferol bosib i wneud hynny.*

**ARWYDDION/CONIAU FORDD AR GAU:**

**Darperir gan Gwmni Rheoli Traffig**

## Ffurflen Gais:

Enw: ______________________________________________________________

Cyfeiriad: ______________________________________________________________
______________________________________________________________
______________________________________________________________
______________________________________________________________

Rhif Ffôn yn ystod y dydd: ______________________________________________

Rhif Ffôn gyda'r nos: __________________________________________________

Sefydliad a'r math o ddigwyddiad: ________________________________________

Dyddiad: ______________________________________________________________

Amseroedd: ____________________________________________________________

Disgrifiad o'r rhan o'r ffordd y dymunwch ei chau: __________________________
______________________________________________________________
______________________________________________________________

Ffordd amgen: __________________________________________________________
______________________________________________________________
______________________________________________________________

**YMGYNGHORIAD (PRESWYLWYR SYDD YN CAEL EU HEFFEITHIO'N UNIONGYRCHOL, ODDI FEWN I'R ARDAL GAU.)**

Mae'r Cyngor am sicrhau fod y mwyafrif o bobl yn hapus â'r digwyddiad arfaethedig (parti stryd.) Fodd bynnag, nid pawb fyd eisiau cyfranogi yn y digwyddiad felly fe'ch cynghorir i hysbysu pawb o amser dechrau a gorffen y parti e.e. rhwng 10am a 8pm.

Awgrymir eich bod yn ymgynghori trwy lythyr a'i ddosbarthu i'r preswylwyr a fydd yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan nodi manylion llawn y digwyddiad (parti stryd) fel fod pawb yn cael eu hysbysu. Gweler enghraifft o lythyr, isod:

Ydych chi wedi ymgynghori â phawb allai gael eu heffeithio? Ydw/Nac ydw

Oes unrhyw wrthwynebiadau i gau'r ffordd? Oes/Nag oes

Arwyddwyd: ____________________________________________________________

Dyddiad: ______________________________________________________________

# <u>ENGHRAIFFT O LYTHYR YMGYNGHOROL</u>

Enw

Cyfeiriad / Manylion cyswllt

Annwyl Gymydog,

Parthed: Parti Coroni yn ein stryd, Ddydd Sadwrn 6 Mai 2023

Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu (fy mod/rydym) yn bwriadu trefnu parti stryd ar ein stryd i ddathlu'r Cornoni, Ddydd Sadwrn 6 Mai 2023. (Byddaf/byddwn) yn gwneud cais i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful i awdurdodi cau'r ffordd ar gyfer traffig rhwng 10am ac 8pm.

Mae'r Cyngor yn ein hysbysu fod rhaid cynnal mynediad i gerddwyr a sicrhau fod mynediad, ar bob adeg ar gyfer cerbydau'r Gwasanaethau Brys. Cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol, dylid caniatáu mynediad i breswylwyr ddefnyddio'u ceir i fynd a dod o'u heiddo ynghyd ag unrhyw ofynion penodol eraill allai fod yn angenrheidiol ar y diwrnod. Mae trefniadau'n cael eu gwneud i osod arwyddion cau ffordd a choniau cau ffordd er mwyn caniatáu i yrwyr wybod fod y ffordd ar gau ar gyfer parti ar eich stryd.

Nawr ein bod wedi'ch hysbysu o'n trefniadau arfaethedig, gobeithio y byddwch yn ymuno â ni ar gyfer y parti a fydd yn cael ei gynnal (nodwch drefniadau'r parti.) Gyda'ch cefnogaeth chi, gobeithiwn y bydd y parti'n ffordd wych i ddathlu'r Coroni.

Fodd bynnag, os oes gennych unrhyw gwestiynau, bryderon neu wrthwynebiadau i'r trefniadau hyn, cysylltwch â mi ar (rhif ffôn.)
Cofion cynnes,

Trefnydd y digwyddiad/Cymydog
Enw yma

# <u>AMODAU CANIATÁD A GWEITHDREFN</u>

1. Dylid cynnal mynediad, ar droed i bob eiddo ar y stryd, ar bob adeg.

2. Dylid cynnal mynediad **syth** ar gyfer cerbydau'r gwasanaethau brys, ar bob adeg. Dylai unrhyw rwystr sydd yn cael ei godi, ar draws y stryd fedri gael ei dynnu oddi yno'n syth.

3. Dylai unrhyw addurniadau neu faneri, ar draws y stryd gael eu crogi mewn modd na fydd yn rwystr i unrhyw un o gerbydau'r gwasanaethau brys gael mynediad.

4. Ni ddylai unrhyw atodiadau, ag eithrio baneri ac ati gael eu crogi o golofnau goleuadau'r stryd, arwyddion traffig nag unrhyw gyfarpar y stryd. Ni ddylid gwanhau ansawdd unedau goleuadau'r stryd a dylai unrhyw addurniadau allu gael eu tynnu oddi yno gan wasanaethau goleuadau'r stryd.

5. Ni chaniateir defnyddio polion nac offer i gefnogi na chario ceblau trydanol a hynny er lles diogelwch y cyhoedd. Ni ddylid gosod unrhyw bolion ar lwybrau cerdded nag yn y gerbydffordd.

6. Ni chaniateir unrhyw danau na barbeciws ar y briffordd ac mae hyn yn cynnwys cerbydffyrdd, llwybrau cerdded, ochrau'r ffyrdd, lleiniau canol a chylchfannau.

7. Dylid tynnu pob bwrdd, cadair, rhwystr ac ati osddi ar y ffordd, yn syth wedi'r digwyddiad a dylai sbwriel gael ei glirio o'r ardal.

8. Mae'r Trefnydd yn gwerthfawrogi y dylid rhoi pob ystyriaeth i breswylwyr ac y dylid gwneud darpariaethau ar gyfer diogelwch yr henoed, y rheini sydd yn sal ac i blant ifanc. Dylid cadw lefelau sŵn ac unrhyw ymyraeth i leiafswm.

9. Bydd y Trefnydd yn indemnio ac yn cadw'r Cyngor wedi'i indemnio yn erbyn niwed (gan gynnwys marwolaeth) i unrhyw berson neu golled neu ddifrod i eiddo sydd yn gysylltiedig â'r digwyddiad ac yn erbyn pob cais, gofyniad, niwed, costau a gwariant sydd yn gysylltiedig â'r digwyddiad.

10. **CYNGHORIR** y Trefnydd **YN GRYF** i sicrhau fod ganddo yswiriant atebolrwydd trydydd parti, lleiafswm o ddeg miliwn o bunnoedd i dalu am bob digwyddiad allai ddigwydd yn sgil cynnal y digwyddiad (parti stryd.)

11. Byd y Trefnydd yn cwblhau Asesiad Risg Diogelwch.

12. Bydd y Trefnydd yn darparu tystiolaeth fod pawb sydd wedi'u heffeithio gan gau'r ffordd yn gytûn a'u bod yn cefnogi'r digwyddiad ac yn fodlon â'r hyn fydd yn digwydd.

## FFURFLEN INDEMNIAD

*Cytunaf i'r amodau caniatâd sydd wedi'u nodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful er mwy awdurdodi'r Digwyddiad ar y briffordd (mae copi ohono wedi cael ei ddarparu) ac rwyf felly'n gwneud cais i gau'r ffordd gael ei gymeradwyo ac rwy'n cytuno i indemnio'r Cyngor yn erbyn unrhyw geisiadau am anafiadau personol neu niwed allai godi yn sgil cynnal y Digwyddiad Arbennig yr amlinellir, isod. Rwy'n cadarnhau fod Asesiad Risg Diogelwch wedi cael ei gwblhau.*

Enw'r digwyddiau arbennig: ______________________________________________

Lleoliad: ______________________________________________________________

Dyddiad y digwyddiad: __________________________________________________

Amser y digwyddiad: ___________________________________________________

Enw'r Trefnydd: _______________________________________________________

Arwyddwyd: ___________________________________________________________

Dyddiad: ______________________________________________________________

**Ydych chi wedi amgáu:**
**1) Eich ffurflen gais wedi'i chwblhau?**
**2) Eich Ffurflen Indemniad?**